Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022

# Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion: Adroddiad Blynyddol 2022

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022)

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i registered.interme@Justice.gov.uk.

# Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder, Edward Argar AS




Ers ei sefydlu fel prosiect peilot uchelgeisiol bron i ugain mlynedd yn ôl, mae'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) wedi esblygu i fod yn wasanaeth amhrisiadwy yn ein system cyfiawnder troseddol. Bellach, caiff ei ddefnyddio'n helaeth ledled Cymru a Lloegr, ac mae'r WIS wedi profi ei hun yn rym er daioni ymhlith pobl fregus, heddluoedd ac erlynwyr y goron fel ei gilydd.

Mae arnom ddyled fawr i'r Cyfryngwyr Cofrestredig (RIs) sy'n gwneud y cynllun hwn yn bosibl. Am flwyddyn arall eto, mae eu hymroddiad a'u harbenigedd wedi bod yn allweddol wrth gynorthwyo unigolion bregus mewn bron i 8,000 o achosion i gyflwyno eu tystiolaeth orau mewn cyfweliadau gyda'r heddlu ac yn y llys.

Nodweddwyd y flwyddyn 2022 gan dwf a chynnydd y WIS, gyda RIs yn cael eu darparu mewn mwy o achosion nag erioed o'r blaen. Mae eu gwaith wedi helpu i gael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau rhai o ddefnyddwyr mwyaf bregus ein system gyfiawnder. Mae'r adborth eithriadol y mae RIs yn ei dderbyn gan swyddogion yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn brawf pellach o'r parch uchel y cânt eu dal ynddo, a gall pob RI fod yn falch iawn o hyn.

Er bod y galw cynyddol am wasanaethau cyfryngwr yn anochel yn peri heriau, mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn parhau i elwa o fynediad at gyfryngwyr. Bydd cofrestru RIs newydd yn parhau trwy gydol 2023, gan adeiladu ar y gwaith rhagorol a wneir gan dîm hyfforddi’r WIS. Byddwn hefyd yn gwrando ar RIs ac yn casglu eu mewnwelediadau ar sut y gallwn barhau i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfryngu ar draws y system gyfiawnder.

Ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), hoffwn ddiolch i'r holl RIs am eu gwaith sy'n cynnal y gwasanaeth pwysig hwn. Bob dydd, mae eu hymdrechion yn parhau i wneud gwahaniaeth mawr wrth roi llais i unigolion bregus yn ein system gyfiawnder.



**Edward Argar AS**
**Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder**

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder 2

Geirfa a Byrfoddau 5

Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2022 6

2022: Y Flwyddyn mewn Rhifau 8

**Rhan Un: Trosolwg o’r Cynllun Cyfryngwyr Tystion**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 9

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol 9

Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr 9

Bwrdd Sicrhau Ansawdd 10

Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig 13

**Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad 2022**

Methodoleg 14

Crynodeb 14

Ceisiadau a Ganslwyd 15

Ceisiadau heb eu Paru 15

Data Perfformiad ar gyfer 2022:

- Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig 16
- Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd Tystion 18
- Ceisiadau yn ôl Oedran Tystion 24
- Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst 26
- Ceisiadau yn ôl Defnyddwyr Gwasanaeth 28
- Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth 30
- Ffigyrau RI Gweithredol 32

**Rhan Tri: Datblygiadau yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2022**

Crynodeb 33

Recriwtio Parhaus 33

Gwasanaethau Cyfryngu Penodedig Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF 34

Cynllun Adfer y WIS 34

Darpariaeth Adran 28 wedi'i Hehangu 34

Cynnydd o ran Lwfans Mentora 35

Polisïau Newydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd (QAB) 35

Cynhadledd Flynyddol y WIS 35

**Rhan Pedwar: Ariannu'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion**

Y Gyllideb Weinyddol 37

Adolygiad Blynyddol Cyfraddau Taliadau Cydnabyddiaeth 37

**Rhan Pump: Edrych Ymlaen**

Crynodeb 38

Cynyddu Gallu 38

Rhaglen Hyfforddi wedi’i Hadnewyddu 39

Canllawiau Gweithdrefnol wedi’u Diweddaru 39

Gwiriadau DBS wedi’u Diweddaru 39

Diwygio Sicrwydd Ansawdd 39

Ymgysylltu â’r Broses Adolygu Cyfryngwyr 40

# Geirfa a Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ABE | Sicrhau'r Dystiolaeth Orau |
| aRI | Cyfryngwr Cofrestredig Achrededig |
| CPD | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Defnyddiwr | Y parti sy'n gofyn am wasanaeth Cyfryngwr Cofrestredig, fel arfer yr heddlu neu’r CPS |
| IRB | Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCA | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| NQRI | Cyfryngwr Cofrestredig Newydd Gymhwyso |
| QAB | Bwrdd Sicrhau Ansawdd |
| RfS | Cais am Wasanaeth |
| RI | Cyfryngwr Cofrestredig |
| RIRT | Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig |
| Adran 28 | O dan adran 28 (a. 28) Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol (YJCEA) 1999, gall tystion cymwys recordio eu croesholi neu ail-holi ymlaen llaw cyn y treial. |
| SLT | Therapi / Therapydd Iaith a Lleferydd |
| WIS | Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion |
| WIT | Y Tîm Cyfryngwyr Tystion |
| YJCEA | Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 |

# Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2022

## Cefndir

Cafodd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) ei dreialu gyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2004, i weithredu'r mesur arbennig ar gyfer Cyfryngwyr yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA). Cafodd y WIS ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2008 a sefydlwyd cofrestr o gyfryngwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (yr MoJ). Daeth y cyfryngwyr hyn i gael eu galw'n Gyfryngwyr Cofrestredig (RIs).

Mae RI yn arbenigwr cyfathrebu hunangyflogedig sy'n helpu tystion ac achwynwyr gyda thrafferthion cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i'r llys mewn achosion troseddol. Yn aml iawn, mae'r cymorth hwn yn gwneud y gwahaniaeth rhwng tyst yn gallu rhoi tystiolaeth neu beidio.

Cyflwynwyd rôl y cyfryngwr gan adran 29 o YJCEA 1999, sy'n darparu ar gyfer archwilio tyst mewn achos troseddol, ac eithrio diffynnydd, i'w gynnal trwy gyfryngwr. Mae adran 16 o'r YJCEA yn nodi bod tyst yn gymwys i gael cymorth gan gyfryngwr os:

- maen nhw o dan 18 oed ar adeg y gwrandawiad; neu
- mae'r llys o'r farn bod ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst yn debygol o gael ei leihau oherwydd:
    - anhwylder meddyliol (yn unol ag ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983[1]); neu
    - amhariad sylweddol ar ddeallusrwydd a gweithrediad cymdeithasol; neu
    - anabledd corfforol neu anhwylder corfforol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg ar lywodraethu, gweithrediad a pherfformiad y WIS rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022.

## Crynodeb o 2022

Trwy gydol 2022, mae'r MoJ wedi cynnal safonau darparu gwasanaeth uchel wrth ddelio â'r gyfradd uchaf erioed o alw am RIs. Roedd yr ymdrechion yn ffocysu ar sicrhau bod capasiti'r WIS yn parhau i ehangu trwy ymgyrchoedd recriwtio treigl, cyflwyno rhaglen dychwelyd i ymarfer ar gyfer cyn-RIs, ac annog cymhwyso'r adnoddau sydd ar gael yn ofalus ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

Derbyniodd y WIS gyfanswm o 8,125 o geisiadau am gymorth RI yn 2022, gan osod record newydd ar gyfer y nifer uchaf o geisiadau a dderbyniwyd am y bedwaredd flwyddyn galendr yn olynol. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli cynnydd o 574% yn nifer y ceisiadau am RIs ers 2010, ond mae hefyd yn nodi gostyngiad yn y gyfradd twf flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gwasanaethau RI o'i gymharu â'r hyn a gofnodwyd yn 2021.

[1] Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn diffinio ‘anhwylder meddwl‘ fel ‘unrhyw anhwylder neu anabledd o’r meddwl'.

Gan barhau â'r strategaeth recriwtio a lansiwyd yn 2021, ariannodd yr MoJ bum ymgyrch recriwtio ac ychwanegwyd 31 o RIs newydd at Gofrestr y WIS, gan gynyddu cyfrif pen y cynllun tua 10% rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022. Bydd gwaith ar gynyddu capasiti'r cynllun yn parhau drwy gydol 2023 a disgwylir iddo alluogi'r cynllun i gynnal lefel y ddarpariaeth gwasanaeth yn wyneb y galw cynyddol parhaus.

Cynyddodd cyfran y ceisiadau am gymorth RI a gafodd eu paru'n llwyddiannus 0.1% ers 2021, sef 95.4% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd. Parhaodd yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (hynny yw, yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron) yn hynod gadarnhaol, gyda 99.9% o'r ymateb wedi bod yn 'ardderchog', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

Gweithiodd yr MoJ a Thîm Cyfryngwr Tystion (WIT) yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) i liniaru effaith pwysau sy'n deillio o ôl-groniadau achosion troseddol trwy lansio cynllun adfer aml-gam y WIS, gyda'r nod o optimeiddio adnoddau o fewn y WIT ac annog y defnydd cyfrifol o wasanaethau RI ar draws y system cyfiawnder troseddol. Yn ogystal, cynhaliodd yr MoJ bedwaredd gynhadledd flynyddol y WIS yn olynol, dyblodd y cyllid sydd ar gael ar gyfer mentora RIs sydd newydd gymhwyso, a chydweithiodd â RIs trwy gydol cyfnod cyflwyno mesur arbennig Adran 28 i holl Lysoedd y Goron yng Nghymru a Lloegr.[2]

Ar gyfer 2023, mae cynyddu argaeledd gwasanaethau RI ledled Cymru a Lloegr yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd yr MoJ hefyd yn gweithio'n agos gyda RIs, dan arweiniad eu hadborth, i gryfhau llywodraethu'r WIS a goruchwylio'r cynllun.

## Ffynonellau Data

Daw holl ystadegau'r adroddiad hwn, oni nodir yn glir fel arall, gan y WIT a Thîm Polisi Defnyddwyr Bregus yr MoJ.

## Newid Cyfnodau Adrodd

Mae adroddiadau blynyddol y WIS bellach yn cyflwyno data a drefnir yn ôl blynyddoedd calendr, yn hytrach na blynyddoedd ariannol. Mae'r newid hwn yn gwneud data perfformiad gwasanaeth yn fwy hygyrch i'n rhanddeiliaid, sydd fel arfer yn gofyn am ddata ar ffurf blwyddyn galendr.

Er mwyn sicrhau cysondeb ac i ganiatáu cymariaethau cyson o ystadegau perfformiad, mae data perfformiad sy'n cyfateb i flynyddoedd calendr 2021 a 2020 hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

[2] Pan fydd y barnwr yn cyfarwyddo, mae adran 28 yn caniatáu i ddioddefwyr a thystion bregus recordio eu fideos croesholi cyn y treial llawn, i ffwrdd o ystafell y llys. Yna caiff y dystiolaeth hon ei chwarae yn ystod y treial byw, sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu nad oes angen i'r unigolyn bregus fod yn bresennol.

# 2022: Y Flwyddyn mewn Rhifau

**8125** o geisiadau am wasanaeth

**7754** o geisiadau paru

**95.4%** o geisiadau wedi'u paru

**99.9%** adborth defnyddwyr gwasanaeth cadarnhaol

**43** ardal heddlu wedi'i gwasanaethu

**31** o RIs newydd wedi'u cofrestru

**10%** cynnydd o ran cyfrif pen y WIS

**6** awr o fentora RI wedi'i gyllido a'i gyflwyno

# Rhan Un: Trosolwg o’r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Tîm Polisi Defnyddwyr Bregus)

Mae gan Dîm Polisi Defnyddwyr Bregus yr MoJ gyfrifoldeb cyffredinol dros y WIS. Mae hyn yn cynnwys materion strategol a pholisïol, yn ogystal ag ariannu a goruchwylio ei weinyddiaeth, gyda’r olaf yn cael ei ddirprwyo i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA). Darperir llywodraethu drwy'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr.

Mae’r Polisi Defnyddwyr Bregus yn rhan o'r Uned Polisi Bregusrwydd a Chyfraith Droseddol, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Dioddefwyr, Bregusrwydd a Chyfraith Droseddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

## Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (Tîm Cyfryngwyr Tystion)

Mae Tîm Cyfryngwyr Tystion (WIT) yr NCA wedi darparu'r agweddau darparu gweithredol ar y WIS ers 2013, gan gynnwys rheoli'r Gofrestr RI a Chronfa Ddata’r Gwasanaeth Paru, a recriwtio a chofrestru RIs.

Mae'r WIT yn cael ei arwain gan y Cynghorydd Tystion Bregus Cenedlaethol, sy'n cyfrannu'n rheolaidd i ymchwiliadau troseddau mawr i gynorthwyo i ddatblygu strategaethau cyfweld a rheoli tystion mewn achosion sy'n cynnwys tystion sy’n arbennig o fregus.

Prif elfen weithredol y WIS yw'r Gwasanaeth Paru. Dyma’r mecanwaith sy'n galluogi'r WIT i baru Cyfryngwyr Cofrestredig i anghenion y tystion ar gais y defnyddiwr gwasanaeth (e.e. yr heddlu, y CPS neu gyfreithiwr). Trwy'r gwasanaeth paru, mae'r WIT yn casglu data sy'n ymwneud â defnydd RIs, megis nifer y ceisiadau ym mhob ardal a'r rheswm/rhesymau am y cais (e.e. y math o fregusrwydd ac oedran y tyst). Mae'r data hwn yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata’r gwasanaeth paru ac mae'n caniatáu monitro newidiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y galw am RIs.

## Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB)

Mae'r IRB yn ffocysu ar gyfeiriad strategol, rheolaeth polisi a strategaeth y WIS, a dyma'r corff llywodraethu sy’n gyfrifol am gytuno ar benderfyniadau polisi'r WIS.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) sy'n cynrychioli prif ddefnyddwyr gwasanaethau'r WIS, yn ogystal â Chymdeithas y Gyfraith, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Cyngor ar Bopeth, yr NCA, y Bwrdd Sicrhau Ansawdd a'r Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig. Caiff ei gadeirio gan yr MoJ.

Mae aelodau'n gyfrifol am gynrychioli eu sefydliadau ar y bwrdd a chynrychioli'r WIS o fewn eu sefydliadau, gan gymryd camau i godi proffil y WIS neu fynd i'r afael â materion yn ôl yr angen.

## Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd (QAB)

Y QAB yw'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, rheoleiddio a monitro safonau proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n gweithio yn y WIS. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu proffesiynol, o safon uchel, ar gael i ddioddefwyr a thystion sydd ag anghenion cyfathrebu.

Mae'r QAB yn cwrdd bob chwarter gan ddod ag unigolion gyda phrofiad proffesiynol ym maes rheoleiddio a sicrhau ansawdd at ei gilydd. Mae'n atebol i'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB). Rôl y QAB yw:

- Cytuno ar y safonau ar gyfer, ac arwain ar, reoli ansawdd y broses recriwtio, hyfforddi, achredu ac adolygiadau CPD Cyfryngwyr Cofrestredig.
- Cynnal a chadw a chefnogi'r Gofrestr RI a sicrhau ei bod yn addas i'r pwrpas.
- Sicrhau bod Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael cefnogaeth i ymddwyn yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Cod Moeseg.
- Sicrhau bod adborth a chwynion yn cael eu hymchwilio'n unol â Pholisi Adborth a Chwynion yr IRB.
- Monitro a chynorthwyo datblygiad pob agwedd ar rôl broffesiynol y Cyfryngwr Cofrestredig.

Mae gan y QAB bedwar aelod ar ddeg. Mae saith o'r rhain yn aelodau annibynnol sy'n arwain ar feysydd penodol o waith y QAB. Mae saith aelod ychwanegol yn gynrychiolwyr swyddogol o'r MoJ, NCA, CPS a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT).

**QAB: Cynrychiolwyr Swyddogol (2022)**

| Aelod | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| **Laura Beaumont/Abigail Plenty** | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Bregusrwydd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Amy Palasz** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **Hannah Kappler** | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| **Frank Glen** | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| **Nicola Furlong** | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| **Clare Moser** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd |

**QAB: Aelodau Annibynnol (2022)**

| Aelod | Proffil |
|---|---|
| **Yr Athro Karen Bryan**<br>Cadeirydd y QAB | Yr **Athro Karen Bryan** yw Is-Ganghellor Prifysgol York St John. Yn flaenorol, hi oedd Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) Prifysgol Greenwich. Cyn hynny, hi oedd Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu Rhanbarthol a Deon y Gyfadran Iechyd a Lles ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, a bu'n dal swyddi academaidd ym Mhrifysgol Surrey a Choleg Prifysgol Llundain. Ar ben hynny, roedd yr Athro Bryan yn gweithio i'r GIG tan 2013.<br><br>Cymhwysodd yr Athro Bryan fel therapydd lleferydd ac iaith o Brifysgol Newcastle Upon Tyne, gan gwblhau doethuriaeth yno hefyd. Mae ei diddordebau ymchwil mewn anawsterau cyfathrebu ymhlith troseddwyr ifanc ac mewn poblogaethau fforensig, yn ogystal ag effaith anawsterau cyfathrebu ar fynediad at ofal iechyd. Cyn hynny, roedd yr Athro Bryan yn aelod o'r Cyngor Proffesiynau Iechyd.<br><br>Mae'r Athro Bryan yn Athro Gwadd yn Adran Niwroseicoleg Prifysgol Warsaw, ac yn Gymrawd yng Ngholeg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd. Cafodd OBE am wasanaethau i addysg uwch yn 2018. |
| **Clare Hickey**<br>Arweinydd Recriwtio a Hyfforddi | Mae **Clare Hickey** yn Ymgynghorydd Adnoddau Dynol llawrydd, yn cynghori busnesau ar strategaethau pobl, recriwtio, hyfforddi a datblygu, ac yn darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau.<br><br>Mae Clare yn cyfuno gwaith ymgynghorol ag eistedd fel Ynad yn ne Essex. Mae hi hefyd yn rhan o'r tîm 'Ynadon yn y Gymuned', gan ymweld ag ysgolion i gyflwyno gweithdai ar y farnwriaeth ac i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â throseddau cyllyll, seiberfwlio a Llinellau Sirol. |
| **Alison Peasgood**<br>Ymgynghorydd Cyffredinol | Mae **Alison Peasgood** yn Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol sydd â phrofiad sylweddol o weithio gyda chleifion byddar a chleifion ag anhwylderau pen, gwddf a llais mewn ysbytai a chanolfannau iechyd.<br><br>Ym 1994, ymunodd Alison â'r Tîm Mewnblannu yn y Cochlea Oedolion cyntaf yn Ysbyty Middlesex yn Llundain. Ym 1997, symudodd y Tîm i'r *Royal National Throat, Nose and Ear Hospital*, lle bu Alison yn allweddol wrth sefydlu Rhaglen Mewnblannu Pediatrig yr ysbyty.<br><br>Wedi hynny, gweithiodd Alison fel Cynghorydd Clinigol Arbenigol (ar fyddardod) i Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd rhwng 2002 a 2012. Mae Alison hefyd wedi cymryd rhan mewn hyfforddi myfyrwyr meddygol yn ystod eu cyfnodau hyfforddi ENT, yn ogystal â nyrsys a therapyddion iaith a lleferydd israddedig. |

| | |
|---|---|
| **John Postlethwaite**<br>Arweinydd Adborth Negyddol, Cwynion a Sancsiynau | Mae gan **John Postlethwaite** dros 25 mlynedd o brofiad yn gweithio gyda phlant, teuluoedd a chymunedau mewn lleoliadau awdurdod lleol, trydydd sector ac iechyd. Mae cyfran fawr o'r amser hwn wedi bod ar lefel arweinyddiaeth uwch.<br><br>Yn rhinwedd y swyddi hyn, mae John wedi llwyddo i gyflawni newid a gwelliant mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Yn fwyaf diweddar, datblygodd ac arweiniodd raglen ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch troseddwyr sy'n oedolion ag anabledd dysgu cudd, gan gyflwyno newidiadau a fabwysiadwyd gan garchardai a gwasanaethau cymunedol ledled Cymru a Lloegr. |
| **Benjamin Roe**<br>Arweinydd CPD a Chofrestr RI | **Ben Roe** yw'r Cyfreithiwr Gwybodaeth Arweiniol ar gyfer grŵp anghydfodau a chydymffurfiaeth byd-eang cwmni cyfreithiol rhyngwladol blaenllaw. Mae ganddo gyfrifoldeb dros wybodaeth, datblygiad proffesiynol ac anghenion hyfforddi tua 1,400 o gyfreithwyr ymgyfreitha, cyflafareddu a chydymffurfio ar draws 77 o swyddfeydd.<br><br>Mae Ben yn gyfreithiwr ymgyfreitha profiadol, a chyn ei rôl bresennol bu'n gweithio mewn practis preifat yn Llundain. Mae wedi rheoli nifer o achosion proffil uchel, yn aml yn ymwneud â materion trawsffiniol. Mae ganddo brofiad helaeth o baratoi tystion ar gyfer treial a chefnogi unigolion trwy broses sy'n aml yn anghyfarwydd iddynt.<br><br>Mae gan Ben hawliau cynulleidfa uwch ac mae'n gyfryngwr achrededig CEDR. Mae'n Swyddog Pwyllgor Datblygu Academaidd a Phroffesiynol Cymdeithas y Bariau Rhyngwladol. Mae Ben hefyd yn aelod o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymorth Proffesiynol Ymgyfreitha ac yn gyn Aelod Pwyllgor o Gymdeithas Ymgyfreitha Cyfreithwyr Llundain. |
| **Amanda Webster**<br>Arweinydd Sicrhau Ansawdd | Mae **Amanda Webster** yn gyfreithiwr mewn ymarfer masnachol ac yn Gyfarwyddwr y cwmni cyfreithiol Harrison Drury, sydd wedi'i leoli yn Swydd Gaerhirfryn a Cumbria. Yn ystod ei gyrfa gyfreithiol, dros gyfnod o oddeutu 33 mlynedd, mae hi wedi datblygu arbenigeddau mewn cyfraith reoleiddio ac ymgyfreitha masnachol. Hi yw Pennaeth Hyfforddiant y practis, gan gefnogi recriwtio a datblygu'r genhedlaeth nesaf o gyfreithwyr.<br><br>Mae Amanda wedi cyfuno ei gyrfa gyfreithiol â gwasanaeth yn y sectorau cyhoeddus ac elusennol. Mae hi'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, yn eistedd yn Llysoedd Sifil a Theulu Gorllewin Swydd Efrog, ac yn Gadeirydd Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu, yn gwrando ar apeliadau mewn achosion disgyblu'r heddlu. |

## Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig (RIRT)

Mae'r RIRT yn cynnwys cynrychiolwyr a benodir gan bob un o'r grwpiau RI rhanbarthol, a'i nod yw cynrychioli buddiannau RI i'r MoJ. Rôl yr RIRT yw:

- Darparu fforwm i'r gymuned RI i godi materion perthnasol yn ymwneud â'r WIS i grŵp hunan-ddethol o'i gyfoedion i'w trafod mewn amgylchedd ffurfiol gyda'r MoJ.
- Cyflawni cynrychiolaeth o'r gymuned RI trwy ei aelodaeth gan adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, croestoriad o'r gymuned honno gan wahanol broffesiynau a galwedigaethau, gwahanol batrymau gwaith a chefndiroedd. Sicrhau bod pob ardal grŵp cymorth rhanbarthol yn cael ei chynrychioli.
- Sicrhau bod y berthynas rhwng y gymuned RI a'r MoJ, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cael ei chynrychioli a'i rheoli'n effeithiol.

Mae'r RIRT yn cwrdd yn chwarterol â chynrychiolwyr o Bolisi Defnyddwyr Bregus yr MoJ.

# Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad 2022

## Methodoleg

Mae'r NCA yn casglu data sy'n ymwneud â cheisiadau am RIs. Mae'r data hwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y WIS trwy gydol 2022 a dyma'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer y bennod dadansoddi perfformiad.

Mae'r data'n cynnwys:

- Cyfanswm y ceisiadau am RIs.
- Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tyst.
- Ceisiadau yn ôl oed y tyst (plentyn neu oedolyn).
- Ceisiadau yn ôl y math o dyst.
- Ceisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth (heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron).
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer 2022.
- Cyfanswm RIs gweithredol ac anweithredol (ffigyrau misol).

Crynhoir y data rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn cynnwys newidiadau yn nifer y ceisiadau a newidiadau sy'n ymwneud â dosbarthu ceisiadau ar draws mathau gwahanol o fregusrwydd, oedran tystion, mathau o dystion a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â nifer y ceisiadau sy’n cael eu paru, nad ydynt yn cael eu paru a’r rheini sy’n cael eu canslo. Mae'r adran hon hefyd yn cwmpasu argaeledd RIs ac adborth defnyddwyr gwasanaeth, a ddiffinnir gan bedwar maen prawf asesu o dros 2,700 o achosion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion yr erlyniad lle cafwyd adborth.

I archwilio tueddiadau ehangach o fewn y WIS ac i ddarparu cymariaethau i ddehongli data 2022, bydd yr adran hon yn cyfeirio at ddata'r Gwasanaeth Paru o 2021 (1 Ionawr 2021 i 31 Rhagfyr 2021) a 2020 (1 Ionawr 2020 i 31 Rhagfyr 2020). Mae data o'r un cyfnodau blynyddol ar gyfer 2011-2020 hefyd wedi'i gynnwys i ddarparu cyd-destun tymor hir ar y galw am wasanaethau’r WIS.  Caiff yr holl gyfeiriadau at gynnydd a gostyngiadau eu mesur yn nhermau newid canrannol.[3]

## Crynodeb

Yn 2022, cafodd y WIS 8,125 o geisiadau am RIs, sy'n cynrychioli'r nifer uchaf o geisiadau am RIs mewn blwyddyn galendr ers cyflwyno'r WIS yn genedlaethol yn 2008, a chynnydd o 1.8% flwyddyn ar ôl blwyddyn o'r cyfnod cyfatebol yn 2021. Mae'r twf yn nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng yn sylweddol o'r cynnydd o 14.1% a gofnodwyd rhwng 2020 a 2021.

[3] Yn hytrach na newid pwynt canrannol.

Mae'r cynnydd cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau yn ymestyn i nifer y ceisiadau ar gyfer pedwar o'r saith categori bregusrwydd a gofnodwyd; mae ffigur 4 a thabl 1 (gweler tudalennau 19 a 20) yn dangos cynnydd sy'n amrywio o 2.4% i 12.8%, ac yn gostwng o 1.2% i 4.5%. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith ceisiadau ar gyfer plant ag anhwylderau meddwl a phlant ag anableddau dysgu, gan godi 12.8% (79 o geisiadau) a 9.3% (191 o geisiadau) yn y drefn honno. Cofnodwyd gostyngiad bach o 1.2% mewn ceisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd sy’n cydfodoli (y bregusrwydd a nodwyd fwyaf aml yn gyffredinol), tra cofnodwyd gostyngiadau o 1.5% a 4.5% yn y drefn honno ar gyfer oedolion a phlant ag anableddau corfforol (sef y bregusrwydd a nodwyd lleiaf aml yn gyffredinol).

O'r holl geisiadau am RIs, cafodd 95.4% ohonynt eu paru'n llwyddiannus, sy'n cynrychioli cynnydd o 0.1% o 2021. Nid yw'r duedd hon yr un mor berthnasol yn gyffredinol, gyda chyfraddau paru llwyddiannus yn cynyddu ar draws pob math o fregusrwydd plant, ond yn gostwng ar draws pob math o fregusrwydd oedolion. At ei gilydd, profodd y WIS ei fod yn gallu cyflawni yn y mwyafrif helaeth o achosion, er gwaethaf y cynnydd yn y galw a gofnodwyd ers 2020.

Mae heddluoedd yn parhau i gynrychioli’r mwyafrif (80%) o geisiadau defnyddwyr gwasanaeth, fel y dangosir yn ffigur 10 *(gweler tudalen 28).* Mae ceisiadau gan yr heddlu wedi cynyddu 0.3% (i fyny 2 gais o 2021) i'r uchaf erioed, sef 6,402 o geisiadau. Mae ceisiadau gan y CPS wedi gweld cynnydd sylweddol o 7.2% (i fyny 116 o geisiadau o 2021).

Arhosodd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer RIs yn gadarnhaol iawn trwy gydol 2022, gyda 99.9% o'r holl ymatebion yn cael eu cofnodi’n 'rhagorol', ‘mwy na boddhaol’ neu ‘boddhaol’.

## Ceisiadau a Ganslwyd

Gall cais am RI gael ei ganslo mewn amgylchiadau fel pledio'n euog yn gynnar, tynnu cwyn yn ôl gan y dioddefwr, neu os nad yw'r tyst yn gallu, neu os nad yw'n dymuno bwrw ymlaen am unrhyw reswm (e.e. rhesymau meddygol).

## Ceisiadau heb eu Paru

Mae ceisiadau heb eu paru yn cyfeirio at achosion prin ble na ellid neilltuo RI i achos yn dilyn cais am gymorth RI.

Os bydd y llys yn cytuno i ohirio, bydd y cais yn dal i gael ei gofnodi fel un heb ei baru a bydd cais newydd (sy'n adlewyrchu dyddiad y treial newydd) yn cael ei gynhyrchu. Felly, nid yw ceisiadau heb eu paru o reidrwydd yn dangos nad oedd yr unigolyn yr oedd angen cymorth arno wedi cael cyfryngwr ar gyfer yr achos o dan sylw.


Gall cais am RI fynd heb ei baru mewn amgylchiadau lle nad yw'r WIT yn gallu darparu RI o fewn yr amserlen a bennir gan y defnyddiwr gwasanaeth, os yw pob RI wedi gwrthod derbyn achos, neu os nad oes RI ar gael ar ddyddiad(au) treial. Mewn amgylchiadau eithriadol o brin, efallai na fydd y WIT yn gallu darparu RI gyda’r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd ag achos cymhleth.

Lle nad yw'n bosibl paru cais, bydd y Cynghorydd Tystion Bregus Cenedlaethol yn darparu cyngor arbenigol i ddefnyddiwr gwasanaeth. Maent yn aml yn cael eu hanfon i helpu yn bersonol.

# Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig

Gwnaed cyfanswm o 8,125 o geisiadau am RIs drwy'r WIS yn 2022, sef 677 o geisiadau'r mis ar gyfartaledd.

Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 1.8% mewn ceisiadau (i fyny 140) ers 2021, lle gwnaed 7,985 o geisiadau. Mae hefyd yn cynrychioli cynnydd o 574% (i fyny 6,919) ers 2010, pan wnaed 1,206 o geisiadau. Mae Ffigur 1 yn dangos y newid yng nghyfanswm nifer y ceisiadau dros y deng mlynedd diwethaf.




**Ffigur 1**


## Newid Cyffredinol: Cyfraddau Paru Llwyddiannus

O'r 8,125 o geisiadau yn 2022, cafodd 95.4% (7,754) eu paru, gyda 2.5% (195) heb eu paru, a 2.1% (172) wedi'u canslo.[4]


Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.1% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (95.3% o geisiadau a barwyd) a gostyngiad o 2.8% o 2020 (98.1% o geisiadau a barwyd).[5]

[4] Ffigur 2. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2022*

Ffigur 3. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*




**Ffigur 2**




**Ffigur 3**

# Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd y Tyst

Mae saith categori bregusrwydd y gellir eu cofnodi ar ffurflenni Cais am Wasanaeth (RfS) RI[6] i nodi anghenion tyst:

- Plentyn â Bregusrwydd Cydredol
- Plentyn ag Anhwylder Meddyliol
- Plentyn ag Anabledd Dysgu
- Plentyn ag Anabledd Corfforol
- Oedolyn ag Anhwylder Meddyliol
- Oedolyn ag Anabledd Dysgu
- Oedolyn ag Anabledd Corfforol

Oherwydd y gall tyst nodi bregusrwydd lluosog ar ffurflen RfS, mae'r ffigurau cyfunol yn yr adran hon yn fwy na'r ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y ceisiadau a nodir uchod.

## Diffiniadau ac Enghreifftiau

Mae'r enghreifftiau a nodir yn y tabl isod yn anghyflawn. Dyma rai yn unig o'r cyflyrau a all effeithio ar allu person i gyfathrebu'n effeithiol.

Nodir meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth RI (fel y nodir gan adran 16 o YJCEA 1999) ar dudalen 6 yr adroddiad hwn.

| Math o Fregusrwydd | Diffiniadau / Enghreifftiau Anghyflawn |
|---|---|
| **Plentyn â Bregusrwydd Cydredol** | Yn cyfeirio at blant sydd â hawl i RI yn unig oherwydd mai eu hunig fregusrwydd yw bod o dan 18 oed. |
| **Anhwylder Meddyliol** | Unrhyw anhwylder neu anabledd sy'n effeithio ar y meddwl.[7]<br>Gall enghreifftiau gynnwys, <u>ond heb fod yn gyfyngedig i</u>: gorbryder; iselder; anhwylder affeithiol deubegynol; anhwylder gorfodaeth obsesiynol; anhwylder personoliaeth; sgitsoffrenia; dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer). |
| **Anabledd Dysgu** | Mae'n effeithio ar y ffordd y mae person yn deall gwybodaeth neu sut maen nhw'n cyfathrebu. Mae hyn yn golygu y gallant gael anhawster o ran deall gwybodaeth |


[6] I ofyn am gymorth RI, mae'r defnyddiwr gwasanaeth (yr heddlu neu'r CPS fel arfer) yn cyflwyno ffurflen RfS i Dîm Cyfryngwr Tystion yr NCA. Mae pob cais yn nodi'r bregusrwydd neu'r cyflyrau sydd gan y tyst.

[7] Deddf Iechyd Meddwl 1983, Adran 1(2)

| | |
|---|---|
| | newydd neu gymhleth; dysgu sgiliau newydd; ymdopi'n annibynnol.[8]<br>Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ADHD; anhwylder sbectrwm awtistiaeth (gan gynnwys Syndrom Asperger); dysarthria; oedi/anhwylder iaith; mudandod dethol. |
| **Anabledd Corfforol** | Nam corfforol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.[9]<br>Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: atal dweud / cecian; anhwylder llais (gan gynnwys laryngectomi a thraceotomi); anaf i'r ymennydd neu'r pen (gan gynnwys strôc); anhwylderau niwrolegol a blaengar (gan gynnwys clefyd motor niwron a chlefyd Parkinson); parlys yr ymennydd. |

## Dadansoddiad o Fregusrwydd a Nodwyd yn y Cais am Ffurflenni Gwasanaeth

O'r holl fregusrwydd a nodwyd ar ffurflenni RfS RI yn 2022, roedd 29.5% yn ymwneud â phlant heb fregusrwydd cydredol, gan wneud hwn y bregusrwydd a grybwyllwyd amlaf. Dilynwyd hwn gan blant ag anabledd dysgu 22.4%), oedolion ag anabledd dysgu (20.1%), oedolion ag anhwylder meddwl (14.7%), plant ag anhwylder meddwl (7%), oedolion ag anabledd corfforol (5.2%) a phlant ag anabledd corfforol (1.1%).




**Ffigur 4**

[8] Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2018, (www.nhs.uk/conditions/learning-disabilities/)

[9] Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 6(1)

# Newid ar Draws pob Cais

Ers 2021, cofnodwyd cynnydd yng nghyfanswm nifer y ceisiadau ffurflenni RfS ar gyfer pob bregusrwydd, ac eithrio un categori.[10]


Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy’n blant, cynyddodd ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol 12.8% (i fyny 79 o geisiadau), cynyddodd y rhai ar gyfer anableddau dysgu 9.3% (i fyny 191 o geisiadau), gostyngodd y rhai ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol 1.2% (i lawr 35 o geisiadau), a gostyngodd y rhai ar gyfer anableddau corfforol 4.5% (i lawr 5 o geisiadau).

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy’n oedolion, cynyddodd ceisiadau ar gyfer anhwylderau meddyliol 4.8% (i fyny 67 o geisiadau), cynyddodd y rhai ar gyfer anableddau dysgu 2.4% (i fyny 47 o geisiadau), a gostyngodd y rhai ar gyfer anableddau corfforol 1.5% (i lawr 8 o geisiadau).

| NEWID AR DRAWS POB CAIS (BREGUSRWYDD) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **2021** | **2022** | **Newid o 2020/2021 (%)** |
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydredol)** | 2,987 | 2,952 | **-1.2%** |
| **Plentyn - Anhwylder Meddyliol** | 618 | 697 | **+12.8%** |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 2,055 | 2,246 | **+9.3%** |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 111 | 106 | **-4.5%** |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddyliol** | 1,400 | 1,467 | **+4.8%** |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 1,974 | 2,021 | **+2.4%** |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 524 | 516 | **-1.5%** |

**Tabl 1**

[10] Ffigur 4 a Thabl 1. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*


Ceisiadau RI yn ôl Bregusrwydd: Cymhariaeth Flynyddol
3,500
3,000
2,500
2,000
1,500
1,000
500
0
2,846
2,987
2,952
411
618
697
1,724
2,055
2,246
99
111
106
1,169
1,400
1,467
1,694
1,974
2,021
387
524
516
Child (w/o Co. Vulnerability)
Child - Mental Disorder
Child - Learning Disability
Child - Physical Disability
Adult - Mental Disorder
Adult - Learning Disability
Adult - Physical Disability
2020
2021
2022

**Ffigur 5**

## Cyfraddau Paru Llwyddiannus


Cofnodwyd cynnydd yng nghanran y ceisiadau a barwyd ar draws pob math o fregusrwydd ymhlith plant ers 2021, tra cofnodwyd gostyngiadau ar gyfer pob math o fregusrwydd ymhlith oedolion.

Ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr a thystion, cynyddodd canran y ceisiadau a barwyd am anableddau corfforol 4.7%, plant heb fregusrwydd cydredol 1.4%, anableddau dysgu 0.7%, ac anhwylderau meddyliol 0.4%.

Ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr a thystion, cynyddodd canran y ceisiadau a barwyd am anableddau corfforol 3.1%, anhwylderau meddyliol 2.5% ac anableddau dysgu 1.2%.[11]

| Bregusrwydd | Wedi'u paru yn 2021 (%) | Wedi'u paru yn 2022 (%) | Newid o 2021 (%) |
|---|---|---|---|
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydredol)** | 96.5 | 97.9 | **+1.4%** |
| **Plentyn - Anhwylder Meddyliol** | 95.5 | 95.8 | **+0.4%** |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 96.5 | 97.1 | **+0.7%** |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 92.8 | 97.2 | **+4.7%** |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddyliol** | 91.9 | 89.6 | **-2.5%** |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 93.8 | 92.7 | **-1.2%** |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 92.4 | 89.5 | **-3.1%** |

**Tabl 2**




**Ffigur 6**

[11] *Tabl 2, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

Ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr a thystion, ni pharwyd 2% o geisiadau am anhwylderau meddyliol, ac yna ceisiadau am anableddau corfforol (1.9% heb eu paru), ceisiadau am blant heb fregusrwydd cydredol (1.1% heb eu paru), a cheisiadau am anableddau dysgu (1% heb eu paru).

Ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr a thystion, ni pharwyd 5.8% o geisiadau am anableddau corfforol, ac yna ceisiadau am anhwylderau meddyliol (5.7% heb eu paru), a cheisiadau am anableddau dysgu (4.2% heb eu paru).

## PLENTYN (HEB FREGUSRWYDD CYDREDOL)

### Ceisiadau Wedi'u Paru: +1.4 %

O'r 2,952 o geisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydredol, cafodd 97.9% (2,889) eu paru, gydag 1.1% (31) heb eu paru, ac 1.1% (32) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.4% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (96.5% o geisiadau plant heb fregusrwydd cydredol wedi'u paru) a gostyngiad o 1.1% o 2020 (98.9% o geisiadau wedi'u paru).[12]

## PLENTYN - ANHWYLDER MEDDYLIOL

### Ceisiadau Wedi'u Paru: +0.4%

O'r 697 o geisiadau ar gyfer plant ag anhwylder meddyliol, cafodd 95.8% (668) eu paru, gyda 2% (14) heb eu paru, a 2% (14) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.4% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (95.5% o geisiadau plant ag anhwylder meddyliol wedi'u paru) a gostyngiad o 2.3% o 2020 (98.1% o geisiadau wedi'u paru).[13]

## PLENTYN - ANABLEDD DYSGU

### Ceisiadau Wedi'u Paru: +0.7%

O'r 2,246 o geisiadau ar gyfer plant heb anabledd dysgu, cafodd 97.1% (2,181) eu paru, gydag 1% (23) heb eu paru, ac 1.8% (48) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.7% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2020, a gostyngiad o 1.6% o 2020 (98.7% o geisiadau wedi'u paru).[14]

## PLENTYN - ANABLEDD CORFFOROL

### Ceisiadau Wedi'u Paru: +4.7%

O'r 106 o geisiadau ar gyfer plant ag anabledd corfforol, cafodd 97.2% (103) eu paru, gyda 2% (2) heb eu paru, ac 1% (1) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 4.7% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (92.8% o geisiadau plant ag anhwylder meddyliol wedi'u paru) a gostyngiad o 1.8% o 2020 (99% o geisiadau wedi'u paru).[15]

---

[12] *Ffigur 6, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

[13] Ibid.

[14] Ibid.

[15] Ibid.

## OEDOLYN - ANHWYLDER MEDDYLIOL

### Ceisiadau Wedi'u Paru: -2.5%

O'r 1,467 o geisiadau ar gyfer oedolion ag anhwylder meddyliol, cafodd 89.6% (1,314) eu paru, gyda 5.7% (84) heb eu paru, a 4.6% (67) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 2.5% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (91.9% o geisiadau oedolion ag anhwylder meddyliol wedi'u paru) a gostyngiad o 6.3% o 2020 (95.6% o geisiadau wedi'u paru).[16]

## OEDOLYN - ANABLEDD DYSGU

### Ceisiadau Wedi'u Paru: -1.2%

O'r 2,021 o geisiadau ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu, cafodd 92.7% (1,873) eu paru, gyda 4.2% (85) heb eu paru, a 3% (61) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 1.2% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (93.8% o geisiadau oedolion ag anabledd dysgu wedi'u paru) a gostyngiad o 4.6% o 2020 (97.2% o geisiadau wedi'u paru).[17]

## OEDOLYN - ANABLEDD CORFFOROL

### Ceisiadau Wedi'u Paru: -3.1%

O'r 516 o geisiadau ar gyfer oedolion ag anabledd corfforol, cafodd 89.5% (462) eu paru, gyda 5.8% (30) heb eu paru, a 4.5% (23) wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 3.1% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (92.4% o geisiadau oedolion ag anabledd corfforol wedi'u paru) a gostyngiad o 6.6% o 2020 (95.9% o geisiadau oedolion ag anabledd corfforol wedi'u paru).[18]

[16] *Ffigur 6, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*
[17] *Ffigur 6, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*
[18] *Ffigur 6, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*


# Ceisiadau yn ôl Oedran Tystion (Plant/Oedolion)

Mae'r NCA yn cofnodi nifer y ceisiadau a wnaethpwyd ar ran plant ac oedolion:

- Plant (o dan 18 oed)
- Oedolion (dros 18 oed)

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau (Plant/Oedolion)

O'r 8,125 o geisiadau RI yn 2022, roedd 67% o'r ceisiadau (5,429) ar ran plant. Gwnaethpwyd y 33% o geisiadau sy'n weddill (2,969) ar ran oedolion.[19]




**Ffigur 7**

## Newid ar Draws pob Cais

Ers 2021, mae nifer y ceisiadau ar ran plant wedi cynyddu 2.2% (i fyny 117 o geisiadau) ac mae nifer y ceisiadau ar ran oedolion wedi cynyddu 0.9% (i fyny 23 o geisiadau).[20]

| NEWID AR DRAWS POB CAIS (OEDRAN Y TYST) | | | |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | **2021** | **2022** | **Newid (%)** |
| **Plentyn** | 5,312 | 5,429 | **+2.2** |
| **Oedolyn** | 2,673 | 2,696 | **+0.9** |

**Tabl 3**

[19] *Ffigur 7, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*
[20] *Tabl 3, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

# Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Ers 2021, mae'r cyfraddau paru llwyddiannus wedi cynyddu i blant ac wedi gostwng i oedolion. Yn dilyn y nifer uchaf erioed o geisiadau, cynyddodd canran y ceisiadau a barwyd 1.1% ar gyfer plant a gostyngodd 1.8% ar gyfer oedolion.[21]

| NEWID O RAN Y CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (OEDRAN Y TYST) | | | |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | **2021 (%)** | **2022 (%)** | **Newid o ran Ceisiadau a Barwyd (%)** |
| **Plant** | 96.3 | 97.4 | **+1.1** |
| **Oedolion** | 93.1 | 91.4 | **-1.8** |

**Tabl 4**

## PLANT

### Ceisiadau Wedi'u Paru: +1.1%

O'r 5,429 o geisiadau plant, cafodd 97.4% (5,289) eu paru, gydag 1.1% (60) heb eu paru, a'r 1.5% (79) dros ben wedi'u canslo.[22]

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.1% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (96.3% o geisiadau wedi'u paru) a gostyngiad o 1.4% o 2020 (98.4% o geisiadau wedi'u paru).[23]

## OEDOLION

### Ceisiadau Wedi'u Paru: -1.8%

O'r 2,696 o geisiadau oedolion, cafodd 91.4% (2,465) eu paru, gyda 5% (135) heb eu paru, a'r 3.4% (93) dros ben wedi'u canslo.[24]

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 1.8% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (93.1% o geisiadau wedi'u paru) a gostyngiad o 5.5% o 2020 (96.7% o geisiadau wedi'u paru).[25]

[21] *Tabl 4, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

[22] Roedd un cais ar ran plentyn yn aros i gael ei neilltuo i RI ar adeg ysgrifennu.

[23] *Tabl 4, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

[24] Roedd tri chais ar ran oedolion yn aros i gael eu neilltuo i RIs ar adeg ysgrifennu.

[25] Ibid.


# Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst

Mae'r NCA yn rhannu data ceisiadau i'r Gwasanaeth Paru yn dri math gwahanol o dyst.[26]

- Dioddefwyr
- Tystion yr Erlyniad
- Tystion yr Amddiffyniad

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau

O'r 8,125 o geisiadau am RIs yn 2022, roedd 90.5% o'r ceisiadau a gofnodwyd (7,352) yn y categori 'Dioddefwyr', gwnaed 9.5% (770) ar gyfer 'tystion yr erlyniad', a gwnaed >0.1% (2) ar gyfer 'tystion yr amddiffyniad'.




**Ffigur 8**

## Newid ar Draws pob Cais

Ers 2021, mae nifer y ceisiadau ar ran dioddefwyr wedi cynyddu 1.9% (i fyny 139 o geisiadau), arhosodd nifer y ceisiadau am dystion yr erlyniad yr un fath, a chynyddodd nifer y ceisiadau am dystion yr amddiffyniad 50% (i fyny 1).

| NEWID AR DRAWS POB CAIS (MATH O DYST) | | | |
|---|---|---|---|
| Math o Dyst | 2021 | 2022 | Newid (%) |
| **Dioddefwyr** | 7213 | 7352 | **+1.9** |
| **Tystion yr Erlyniad** | 770 | 770 | **Dim** |
| **Tystion yr Amddiffyniad** | 2 | 3 | **+50** |

[26] Data wedi'i gyrchu o ffurflenni Cais am Wasanaeth (RfS) yr Heddlu a'r CPS. Efallai na fydd ffurflenni RfS bob amser yn gwahaniaethu rhwng 'dioddefwyr' a 'thystion yr erlyniad'. Mewn termau cyfreithiol, mae dioddefwr yn ymddangos yn y llys fel tystion.


**Tabl 5**

## Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Cynyddodd y gyfradd paru lwyddiannus ar gyfer dioddefwyr ychydig ers 2021, gan ostwng 0.1% ar gyfer tystion yr erlyniad ac aros yr un peth ar gyfer tystion yr amddiffyniad. Ni ddarparwyd dadansoddiad data pellach ar gyfer tystion yr amddiffyniad oherwydd nifer isel yr achosion.

| NEWID O RAN CYFRADDAU LLWYDDIANT (MATH O DYST) | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Dyst** | **2021 (%)** | **2022 (%)** | **Newid o ran Ceisiadau a Barwyd (%)** |
| **Dioddefwyr** | 95.2 | 95.5 | **+0.3** |
| **Tystion yr Erlyniad** | 95.3 | 95.2 | **-0.1** |
| **Tystion yr Amddiffyniad** | 100 | 100 | **Dim** |

**Tabl 6**




**Ffigur 9**

### DIODDEFWYR
**Ceisiadau Wedi'u Paru: +0.3%**

O'r 7,352 o geisiadau ar ran dioddefwyr, cafodd 95.5% (7,018) eu paru, gyda 2.4% (179) heb eu paru, a'r 2.1% (151) dros ben wedi'u canslo.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.3% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (95.2% o geisiadau ar ran dioddefwyr wedi'u paru) a gostyngiad o 2.8% o 2020 (98.2% o geisiadau ar ran dioddefwyr wedi'u paru).[27]

### TYSTION YR ERLYNIAD
**Ceisiadau Wedi'u Paru: -0.1%**

O'r 770 o geisiadau ar ran tystion yr erlyniad, cafodd 95.2% (733) eu paru, gyda 2.1% (16) heb eu paru, a'r 2.7% (21) dros ben wedi'u canslo.

[27] Ffigur 9. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.1% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (95.3% o geisiadau ar ran tystion yr erlyniad wedi'u paru) a gostyngiad o 1.9% o 2020 (97% o geisiadau ar ran tystion yr erlyniad wedi'u paru).[28]

[28] Ffigur 9. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2018-2021*

# Ceisiadau gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth


Mae tri chategori o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cyflwyno ceisiadau i'r NCA yn 2022:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Cyfreithwyr

## Dadansoddiad o'r Ceisiadau

Mae ceisiadau gan heddluoedd yn parhau i gynrychioli'r mwyafrif (78%, 6,402) o'r holl geisiadau am RIs yn 2022, gyda cheisiadau gan y CPS yn cyfrif am 22% (1,720 o geisiadau). Mae ceisiadau gan gyfreithwyr yn cyfateb â cheisiadau am dystion yr amddiffyniad ac mae'r niferoedd yn parhau i fod yn eithriadol o fach; ni ddarparwyd dadansoddiad data pellach am y rheswm hwn.

**Dadansoddiad o Geisiadau (Defnyddiwr Gwasanaeth): 2022**




**Ffigur 10**

## Newid ar Draws pob Cais

Ers 2021, mae nifer y ceisiadau gan heddluoedd wedi cynyddu 0.3% (i fyny 22 o geisiadau) ac mae nifer y ceisiadau gan y CPS wedi cynyddu 7.2% (i fyny 116 o geisiadau).[29]

| NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (DEFNYDDIWR GWASANAETH) | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr Gwasanaeth** | **2021** | **2022** | **Newid (%)** |
| **Yr Heddlu** | 6,380 | 6,402 | **+0.3** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron** | 1,604 | 1,720 | **+7.2** |

[29] *Tabl 8, Data Gwasanaeth Paru NCA 2019-2021*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfreithwyr** | 1 | 3 | **+200** |


**Tabl 8**

## Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Cynyddodd y gyfradd paru lwyddiannus ar gyfer ceisiadau gan yr heddlu 0.8% o 2021, tra bod y gyfradd llwyddiant ar gyfer ceisiadau'r CPS wedi gostwng 1.9%.[30]

| NEWID O RAN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (DEFNYDDIWR GWASANAETH) | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr Gwasanaeth** | **2021 (%)** | **2022 (%)** | **Newid o ran Ceisiadau a Barwyd (%)** |
| **Yr Heddlu** | 95.9 | 96.7 | **+0.8** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron** | 92.6 | 90.8 | **-1.9** |
| **Cyfreithwyr** | 100 | 100 | **Dim** |

**Tabl 9**




**Ffigur 11**

### HEDDLU

#### Ceisiadau Wedi'u Paru +0.8%

O'r 6,402 o geisiadau gan heddluoedd, cafodd 96.7% (6,190) eu paru, gydag 1.2% (75) heb eu paru, a'r 2.1% (134) dros ben wedi'u canslo.[31]

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.8% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (95.9% o geisiadau gan heddluoedd wedi'u paru) a gostyngiad o 1.9% o 2020 (98.6% o geisiadau wedi'u paru).[32]

### GWASANAETH ERLYN Y GORON

#### Ceisiadau Wedi'u Paru -1.9%

O'r 1,720 o geisiadau gan y CPS, cafodd 90.8% (1,561) eu paru, gyda 7% (120) heb eu paru, a'r 2.2% (38) dros ben wedi'u canslo.[33]

[30] *Tabl 9, Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*
[31] Roedd tri chais gan heddluoedd yn aros i gael eu neilltuo i RIs ar adeg ysgrifennu.
[32] Ffigur 11. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2020-2022*
[33] Roedd un cais gan y CPS yn aros i gael ei neilltuo i RI ar adeg ysgrifennu.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.9% yng nghanran y ceisiadau a barwyd o 2021 (92.6% o geisiadau gan y CPS wedi'u paru) a gostyngiad o 5.6% o 2020 (95.9% o geisiadau wedi'u paru).[34]

[34] Ibid.

# Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (fel arfer yr heddlu neu'r CPS), ar ôl darparu RI, yn cael ei werthuso yn erbyn pedwar maen prawf:

- Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol
- Ymddygiad Personol / Proffesiynoldeb yr RI
- Ansawdd yr Wybodaeth gan yr RI
- Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn yr achos


Mae'r adborth o dan bob maen prawf hefyd yn cael ei ddadgyfuno rhwng darpariaeth RI i ddioddefwyr a darpariaeth RI i dystion yr erlyniad. Pan fydd adborth ar gyfer achos penodol yn llai na 'boddhaol', mae'r QAB yn cymryd camau i ymchwilio i'r mater.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn asesu pob maen prawf ar sail graddfa 1-5 (rhagorol, mwy na boddhaol, boddhaol, llai na boddhaol, gwael).

## Trosolwg ar yr Adborth

Isod, rhoddwyd sgôr cyfartalog i'r adborth ar draws y pedwar maen prawf a'r ddau fath o dyst i ddarparu mewnwelediad i farn defnyddwyr gwasanaeth o berfformiad Cyfryngwyr Cofrestredig yn 2020/2021.

Yn erbyn 2,787 o achosion (y rhai lle cafwyd adborth),[35] cafodd 99.9% adborth ‘boddhaol', ‘mwy na boddhaol’ neu ‘rhagorol'. O’r 0.1% dros ben, roedd 0.09% (11) o’r adborth yn ‘llai na boddhaol’ a 0.01% (1) yn ‘gwael’.[36]




**Ffigur 12**

[35] Ni chafwyd adborth ar bob achlysur.

[36] Ffigur 12. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2022*

# Adborth ar draws Pob Maen Prawf

Isod, mae'r holl ganlyniadau, gan gwmpasu'r ddau fath o dyst a'r holl feini prawf adborth, wedi'u cyflwyno.[37] Mae hyn yn dangos ymhellach y gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan RIs ar draws y WIS.

| ACHOSION DIODDEFWYR | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol** | 92.3 (2007) | 6.6 (145) | 1.0 (21) | 0.0 (1) | Dim | 2174 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 95.3 (2075) | 4.1 (89) | 0.5 (10) | 0.1 (3) | 0.0 (1) | 2178 |
| **Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan yr RI** | 93.4 (2032) | 5.6 (121) | 0.9 (20) | 0.1 (2) | 0.0 (1) | 2176 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn ystod yr achos** | 91.8 (1968) | 6.7 (144) | 1.3 (27) | 0.3 (6) | Dim | 2145 |

**Tabl 10**

| ACHOSION TYSTION YR ERLYNIAD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol** | 86.2 (169) | 13.8 (27) | Dim | Dim | Dim | 196 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 90.8 (178) | 9.2 (18) | Dim | Dim | Dim | 196 |
| **Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan yr RI** | 90.8 (177) | 7.7 (15) | 1.5 (3) | Dim | Dim | 195 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn ystod yr achos** | 88.6 (172) | 10.3 (20) | 1.0 (2) | Dim | Dim | 194 |

**Tabl 11**

[37] Tablau 10-11. *Data Gwasanaeth Paru NCA 2022*

# Ffigyrau RI Gweithredol

Mae nifer yr RIs gweithredol ac anweithredol yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ffigurau isod yn cyfateb i ffigurau gweithredol ac anweithredol ar yr unfed ddiwrnod ar bymtheg o bob mis rhwng Ionawr 2021 a Rhagfyr 2022.

## RIs Gweithredol

Mae RI 'gweithredol' yn un sy'n derbyn achosion newydd yn weithredol, fel y'i dirprwywyd gan yr NCA.

## RIs Anweithredol


Mae RI 'anweithredol' yn un sydd wedi ei gofnodi ar y Gofrestr Gyfryngwyr fel un nad yw ar gael i dderbyn achosion newydd. Gall RI anweithredol barhau i weithio ar achosion sy'n mynd rhagddynt. Derbynnir y bydd gan RIs ymrwymiadau eraill a allai olygu eu bod yn dod yn anweithgar am gyfnodau o amser.

Mae'r rhesymau dros anweithgarwch yn amrywio'n eang ac yn cynnwys ymrwymiadau cyflogaeth sylfaenol, absenoldeb mamolaeth, cyfnodau sabothol, astudiaethau academaidd, a chyfnodau gwyliau. Mae hyd yr anweithgarwch hwn yn amrywio yn unol â hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfnodau hyn yn fyr; mae gwaith RIs yn cael ei reoli o'u cwmpas ac mae'r NCA yn cael gwybod am eu statws.

## Trosolwg o Argaeledd RI

Cyfartaledd y nifer o RIs gweithredol oedd 147 yn 2022; sy'n cyfateb i 69% o gyfanswm cyfartaledd yr RIs ar gofrestr y WIS yn ystod y cyfnod hwn (212). Gadawodd 26 o RIs y WIS, tra bod ffigurau 'gweithredol' misol wedi parhau i amrywio.

Cynyddodd cyfanswm nifer yr RIs 10% (20) yn ystod 2022. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu gweithgareddau recriwtio a hyfforddi parhaus a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.


RIs Gweithredol ac Anweithredol
225
205
185
165
145
125
105
85
65
45
Jan-21
Mar-21
May-21
Jul-21
Sep-21
Nov-21
Jan-22
Mar-22
May-22
Jul-22
Sep-22
Nov-22
Active
Inactive
Total


**Ffigur 13**

# Rhan Tri: Datblygiadau Allweddol yn 2022

## Crynodeb

Parhaodd yr MoJ â'i strategaeth recriwtio genedlaethol y WIS, gan ychwanegu 31 o RIs newydd yn 2022 a chynyddu cyfrif pen y WIS 10%. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd Gwasanaethau Cyfryngwr Penodedig HMCTS i gynorthwyo partïon bregus y tu hwnt i'r WIS.

Er mwyn gwneud y gorau o wasanaethau RI a lleddfu'r pwysau ar y cynllun, cyflwynwyd cynllun adfer WIS aml-gam. Yn ogystal, ehangodd yr MoJ ddarpariaethau Adran 28 ar gyfer dioddefwyr penodol, cynyddu cyllid ar gyfer mentora RIs, a gweithredu polisïau newydd ar gyfer mentora a datblygiad proffesiynol parhaus.




## Recriwtio RIs parhaus

Parhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflwyno strategaeth recriwtio genedlaethol y WIS, a lansiwyd ym mis Medi 2021. Arweiniodd hyn at benodi 31 o RIs newydd yn 2022, gan gynyddu cyfanswm yr RIs a ychwanegwyd at Gofrestr y WIS ers mis Medi 2021 i 47.

Arweiniodd yr ymdrechion hyn at gynnydd o 13% yng nghyfrif pen y WIS rhwng mis Medi 2021 a mis Rhagfyr 2022, gan alluogi'r cynllun i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn well ac ymateb yn fwy effeithiol i'r galw cynyddol am wasanaethau cyfryngu. Mae'r capasiti gwell hefyd wedi caniatáu ar gyfer ystod fwy amrywiol o sgiliau ac arbenigedd o fewn y WIS, sy'n cyfrannu ymhellach at allu'r Cynllun i addasu i anghenion esblygol defnyddwyr gwasanaeth ar draws y system gyfiawnder.

Roedd y Tîm Hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig (RITT) yn hanfodol i'r gwaith hwn, gan ddarparu pum cwrs hyfforddi yn ystod 2022 i wneud y mwyaf o gronfeydd recriwtio. Parhaodd y rhaglen i dderbyn adborth rhagorol. Y gyfradd basio gyfartalog oedd 75% o'r rheini a gofrestrwyd.

Yn ogystal, dyrannodd yr MoJ gyllid i gefnogi datblygiad parhaus yr RITT trwy recriwtio tri aelod ychwanegol i'r tîm, gan wella ymhellach ei allu i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel i ddarpar RIs.

## Lansio Gwasanaethau Cyfryngwyr Penodedig GLlTEF

Cyflwynwyd Gwasanaethau Cyfryngwyr Penodedig (HAIS) GLlTEF ym mis Ebrill 2022 i ddarparu cyfryngwyr ar gyfer partïon bregus sydd y tu allan i gwmpas y WIS, gan gynnwys diffynyddion mewn achosion troseddol a phartïon mewn achosion teuluol, sifil a thribiwnlysoedd ledled Cymru a Lloegr a thribiwnlysoedd yn yr Alban.

Ar ddechrau'r fframweithiau roedd:

- Tri darparwr gwasanaethau a reolir ac a gymeradwyir (MASPs) gyda gwasanaethau cyfryngu ar gael yn genedlaethol; a
- 12 darparwr gwasanaeth cymeradwy (ASPs), sy'n unigolion hunangyflogedig sy'n darparu gwasanaethau cyfryngu arbenigol.

Mae'r fframweithiau HAIS yn ailagor ar gyfer cynigwyr newydd posibl bob 6 mis; ac yn dilyn yr ail-agoriad cyntaf ym mis Hydref 2022, roedd GLlTEF yn gallu dod â thri darparwr ASP newydd i mewn i ymuno â'r fframweithiau a darparu gwasanaethau cyfryngu o dan HAIS.

Mae'r contract GLlTEF newydd wedi cwblhau dros 10,000 o archebion yn llwyddiannus, gan gynnwys tua 4,000 o asesiadau a 6,000 o wrandawiadau yn ei flwyddyn gyntaf.

## Cyflwyno Cynllun Adfer y WIS

I liniaru'r pwysau ar y WIS, mae'r MoJ a'r NCA wedi cyflwyno cynllun adfer aml-gam ar y cyd y WIS. Nod y fenter hon yw gwneud y defnydd gorau o wasanaethau RI, sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon a pharhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol ar draws y system gyfiawnder.

Fel rhan o'r strategaeth hon, anogwyd swyddogion heddlu a'r CPS i arfer gofal ychwanegol wrth ofyn am wasanaethau RI. Roedd canllawiau penodol yn cynnwys ceisio dyddiadau treialon sefydlog lle bynnag y bo modd, gan ystyried dyddiadau eraill pan nad oes RI ar gael, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer dyddiadau cau adroddiadau llys, a gwneud pob ymdrech i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i RI am gynnydd achosion.

Elfen allweddol o'r cynllun oedd cyflwyno rhaglen 'dychwelyd i ymarfer' hyblyg, gyda'r nod o annog cyn-RIs i ailymuno â'r WIS. Mae'r fenter hon wedi helpu i gynyddu nifer yr RIs gweithredol, gan ategu effaith ymdrechion recriwtio parhaus a chryfhau capasiti cyffredinol y cynllun.

## Darpariaeth Adran 28 wedi'i hehangu

Ym mis Medi 2022, cwblhaodd yr MoJ gyflwyno'r mesur arbennig Adran 28 ar gyfer dioddefwyr troseddau caethwasiaeth rywiol a modern ym mhob Llys y Goron, gan alluogi'r dioddefwyr hyn i recordio eu croesholiadau ymlaen llaw ac yna eu chwarae yn y treial.

Roedd hyn yn welliant pellach ar y mesur arbennig Adran 28, sydd wedi bod ar gael i blant ac oedolion bregus ym mhob Llys y Goron ers mis Tachwedd 2020.

Mae'r MoJ yn parhau i weithio gyda'r farnwriaeth, yr heddlu a'r CPS i sicrhau y gall gefnogi dioddefwyr a thystion cystal â phosibl. Mae RIs wedi helpu i gyfrannu at ddatblygiad y mesur arbennig hwn drwy Is-grŵp Cyflawni Adran 28.

## Cynnydd o ran cyllid ar gyfer mentora RIs

Gweithredodd yr MoJ ar argymhelliad QAB i gynyddu'r lwfans mentora a ariennir gan yr MoJ, gan wella'r ystod o gymorth a ddarperir i RIs.

Ar gyfer RIs sydd newydd gymhwyso, dyblwyd y lwfans mentora, gan gynyddu o dair awr i chwe awr. Mae'r cymorth gwell hwn wedi helpu RIs newydd i fagu hyder wrth iddynt ddechrau ar eu rolau, gan feithrin integreiddio llyfnach a mwy effeithiol i'r cynllun.

Yn ogystal, cyflwynwyd tair awr o fentora a ariennir gan yr MoJ ar gyfer RIs sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl bod yn anweithredol am chwe mis o leiaf. Bwriad y fenter hon yw annog RIs profiadol i ail-ymgysylltu â'r proffesiwn, gan sicrhau bod eu harbenigedd gwerthfawr yn parhau i fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth a chyfrannu at effeithiolrwydd y WIS.

## Polisïau Newydd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd (QAB)

Datblygodd a gweithredodd y QAB ddau bolisi newydd i gefnogi RIs ymhellach yn eu datblygiad proffesiynol: y Polisi Mentora a Chefnogaeth a'r Polisi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD).

Nod y polisïau hyn yw atgyfnerthu arferion presennol wrth gyflwyno mesurau arloesol sydd wedi'u cynllunio i gryfhau darpariaethau CPD a mentora er budd yr holl RIs.

Trwy'r polisïau newydd hyn, mae'r QAB yn ceisio creu amgylchedd cefnogol lle gall RIs ddarparu'r gwasanaethau cyfryngu gorau posibl. Mae'r Polisi Mentora a Chefnogaeth a'r Polisi CPD yn dangos ymrwymiad i feithrin twf proffesiynol RIs, gan sicrhau eu bod yn barod i wynebu'r heriau a'r cymhlethdodau sy'n codi yn ystod eu gwaith.

Yn 2023, mae'r MoJ a'r QAB yn bwriadu cryfhau'r polisïau hyn ymhellach trwy ymgynghori â'r gymuned RI. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i nodi meysydd i'w gwella, mireinio'r darpariaethau presennol, ac alinio'r polisïau ymhellach ag anghenion a phrofiadau ymarferol RIs, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol wrth feithrin datblygiad proffesiynol ar draws y WIS.

## Cynhadledd Flynyddol y WIS

Mynychwyd Cynhadledd Flynyddol y WIS 2022 gan dros 130 o unigolion o bob rhan o’r WIS. Dyma ddigwyddiad allweddol yng nghalendr y WIS, a rhoddodd y gynhadledd gyfle i RIs a rhanddeiliaid ddod at ei gilydd, a rhannu gwybodaeth a phrofiadau.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i edrych ar ystod eang o bynciau, gan adlewyrchu tirwedd ddatblygedig gwasanaethau cyfryngu. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys trafodaethau ar y diwygiadau diweddaraf i'r canllawiau ar Gyflawni'r Dystiolaeth Orau, yr heriau unigryw o

gynorthwyo tystion hŷn, a chydweithio rhwng RIs a chyfieithwyr ieithoedd a siaradir. Yn ogystal, archwiliodd y gynhadledd fanteision gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tystion, gan arddangos y potensial ar gyfer gwell cydlynu a chydweithredu rhwng y ddau endid er mwyn darparu cefnogaeth gynhwysfawr trwy gydol y broses gyfiawnder.

# Rhan Pedwar: Cyllid y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Gyllideb Weinyddol

Roedd cyllideb y WIS ar gyfer 2022/2023 yn £603,226, gyda £466,620 o hyn wedi'i ddynodi ar gyfer Tîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA i ariannu Gwasanaeth Paru'r WIS ac Ysgrifenyddiaeth QAB.

Mae'r arian sy'n weddill (sy'n gyfwerth â thraean o gyllideb 2022/2023) yn cael ei ddyrannu ar draws y WIS. Mae hyn yn cynnwys ariannu gwaith yr IRB, QAB a RIRT, yn ogystal â dyletswyddau corfforaethol a wneir gan aRIs.

| CYLLIDEB Y WIS 2022/2023 | | |
|---|---|---|
| **Dyraniad Arian** | **Cyfanswm Gros (£)** | **% o'r Gyllideb Flynyddol** |
| **Gwasanaethau Paru'r WIS (+ Ysgrifenyddiaeth QAB)** | 466,620 | **77** |
| **Gwasanaethau Eraill y WIS (IRB, QAB a RIRT, recriwtio, hyfforddiant, datblygiad NQRI, dyletswyddau aRI)** | 136,606 | **33** |
| **CYFANSWM** | 603,226 | **100** |

## Adolygiad Blynyddol Cyfraddau Taliadau Cydnabyddiaeth

Rhaid i RIs anfonebu yn ôl y cyfraddau cenedlaethol a gymeradwywyd gan yr IRB. Mae'r ffioedd yn seiliedig ar gyfradd yr awr, sy'n cwmpasu apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ysgrifennu adroddiadau, gydag ad-daliadau teithio a chynhaliaeth o fewn terfynau polisi.

Gwneir trefniant cytundebol ar y pwynt y mae'r RI yn derbyn Cais am Wasanaeth. Mae'r trefniant hwn rhwng yr RI, fel unigolyn hunangyflogedig, a'r gwasanaeth y mae'r cais yn tarddu ohono – yr heddlu neu'r CPS fel arfer.

Mae cyfraddau tâl yn cael eu cytuno gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y CPS a'r NPCC. Cynhelir adolygiad o gyfraddau tâl yn flynyddol ac mae'n dilyn gweithdrefn y cytunwyd arni, gyda RIs yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynnig am ad-daliad. Dyfarnwyd cynnydd o 3% i Raddfa Graidd yr Awr 2022/2023 (roedd y cynnydd hwn hefyd yn berthnasol i'r cyfraddau amser anghymdeithasol a theithio).


| DYFARNIADAU CYFLOG CYFRYNGWYR COFRESTREDIG (HANES DIWEDDAR) | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **Dyfarniad (Cynnydd %)** | **Cyfradd Fesul Awr ar ôl y Dyfarniad (£)** |
| **2019-20** | 1 | **39.33** |
| **2020-21** | 1.5 | **39.92** |
| **2021-22** | Dim | **39.92** |
| **2022-23** | 3 | **41.20** |

# Rhan Pump: Edrych Ymlaen

## Crynodeb

Nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw gwella'r WIS trwy recriwtio a hyfforddi RIs newydd. Bydd rhaglen hyfforddi ddiwygiedig yn cynnwys profiad dysgu ar-lein dau gam a phroses asesu wedi'i mireinio.

Yn ogystal, bydd y Llawlyfr Canllawiau Gweithdrefnol RI yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu datblygiadau diweddar. Bydd gwiriadau DBS wedi'u huwchraddio yn cryfhau ymdrechion diogelu, tra bydd diwygio sicrwydd ansawdd ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid yn helpu i gyfrannu at lywodraethu'r WIS yn well.




## Cynyddu gallu'r WIS

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fod yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn recriwtio a hyfforddi RIs newydd i gynyddu gallu'r WIS.

Byddwn yn parhau â strategaeth recriwtio genedlaethol, gan nodi ymgeiswyr sydd â sgiliau ac arbenigedd mewn ystod eang o anghenion cyfathrebu. Bydd penderfyniadau recriwtio yn cael eu llywio gan ddadansoddiad trylwyr o ddata'r WIS a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr ymagwedd wedi'i thargedu hon yn helpu i ehangu'r ystod o sgiliau sydd ar gael ar draws holl ardaloedd yr heddlu a sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu.

Bydd yr ymdrechion hyn yn cael eu hintegreiddio â mentrau adfer llysoedd parhaus, gan sicrhau dull cynhwysfawr a chydlynol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r system gyfiawnder. Trwy flaenoriaethu ehangu arbenigedd ac ymatebolrwydd RI, ein nod yw creu WIS mwy cadarn a gwydn sy'n gwasanaethu anghenion esblygol ein defnyddwyr gwasanaeth ac yn cyfrannu at broses gyfiawnder deg ac effeithlon.

## Rhaglen hyfforddi RIs wedi'i Hadnewyddu

Bydd yr RITT yn bwrw ymlaen â chyfres o newidiadau i'r rhaglen hyfforddi RIs i ddatblygu agweddau sgiliau penodol y cwrs a sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hoptimeiddio ar gyfer darpariaeth ar-lein barhaus.

Er mwyn gwella perfformiad hyfforddeion, mae'r RITT yn bwriadu ailstrwythuro'r profiad dysgu ar-lein trwy ymestyn hyd y cwrs a'i rannu'n ddau gam. Bydd gofyn i hyfforddeion basio asesiad ar ddiwedd pob cam er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae llawlyfr cwrs yn cael ei ddatblygu hefyd i hwyluso rhaglen fwy rhyngweithiol a disgyrsiol.

Mae gwelliannau ychwanegol i'r rhaglen hyfforddi yn cynnwys ymgorffori mwy o gyfleoedd am adborth i lywio'r broses asesu ac addasu'r system farcio asesiadau. Yn lle model pasio/methu deuaidd, bydd y dull newydd yn ymgorffori gwerthusiad mwy cynnil o hyfforddeion.

Bydd yr RITT hefyd yn gweithio i gryfhau'r cysylltiadau rhwng recriwtio, hyfforddiant, a chefnogaeth grwpiau cyfoedion ar ôl hyfforddiant. Bydd hyn yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i RIs sydd newydd gymhwyso ac yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus, gan gefnogi darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel o fewn y WIS.

## Arweiniad Gweithdrefnol wedi'i Ddiweddaru

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn newydd o'r Llawlyfr Canllawiau Gweithdrefnol Cyfryngwyr Cofrestredig. Bydd y ddogfen hon yn ymgorffori'r datblygiadau gweithdrefnol diweddaraf yn y WIS, gan sicrhau bod gan RIs yr arbenigedd, yr arweiniad a'r wybodaeth weithdrefnol i helpu i lywio a pherfformio'r rôl gyfryngu o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Bydd gwelliannau'n cynnwys adroddiad llys diwygiedig a chanllawiau cyfatebol, cyflwyno adroddiad proforma rhagarweiniol yr heddlu, a phrotocolau cryfach ar ddiogelu, a chydweithio â gweithwyr eraill y system gyfiawnder. Mae'r diweddariad cynhwysfawr hwn wedi elwa o gyfraniadau helaeth o bob rhan o'r gymuned gyfryngu, gan gynnwys yr RIRT a'r RITT.

## Gwiriadau DBS wedi'u Diweddaru

Rydym wedi argymell bod y gyfraith yn cael ei newid er mwyn gwneud cyfryngwyr yn gymwys i gael gwiriadau DBS ar lefel Safonol. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel uchel o ymddiriedaeth y cyhoedd a fuddsoddir mewn pobl sy'n cyflawni'r rôl gyfryngu, a bydd yn helpu i ddiogelu unigolion bregus ymhellach o fewn y system gyfiawnder.

## Diwygio Sicrwydd Ansawdd

Bydd polisïau QAB, gan gynnwys adborth a chwynion, mentora, rheoli Cofrestr y WIS, addasrwydd i ymarfer, a sancsiynau, yn cael adolygiad systematig mewn cydweithrediad rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, QAB a RIRT. Bydd y newidiadau hyn yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau ac yn cael eu llywio gan adborth gan y gymuned RI.

Yn ogystal, bydd y QAB yn recriwtio aelod newydd o'r bwrdd sydd â phrofiad ymarferol o weithredu fel RI. Bydd yr ychwanegiad hwn yn gwella arbenigedd y Bwrdd, ac yn ehangu ymhellach yr ystod o wybodaeth a phrofiad sydd ar gael iddo.

## Ymgysylltu â’r broses Adolygu Cyfryngwyr

Byddwn yn ymgysylltu'n weithredol â RIs a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn gwasanaethau cyfryngu i gasglu mewnwelediadau gwerthfawr a llywio argymhellion ar gyfer ein hadolygiad o ddarpariaeth cyfryngu ar draws y system gyfiawnder.

Trwy gydweithio â rhanddeiliaid a dadansoddi'r data diweddaraf ar wasanaethau cyfryngu, byddwn mewn gwell sefyllfa i lunio darpariaeth cyfryngu fwy effeithiol ac ymatebol sy'n diwallu anghenion esblygol y system gyfiawnder a'r WIS.

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.